Estyn

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Gymraeg Calon y Cymoedd
# Betws Road
# Betws
# CF32 8TD

## Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2019

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Gynradd Gymraeg Calon y Cymoedd

Lleolir Ysgol Gynradd Calon Y Cymoedd ym mhentref Betws ac mae'n cael ei chynnal gan awdurdod lleol Pen-y-bont ar Ogwr. Mae 174 disgybl rhwng 3 ac 11 oed ar y gofrestr, yn cynnwys 20 o oed meithrin amser llawn a 9 o oed cyn-feithrin rhan amser. Mae'r disgyblion wedi eu rhannu rhwng 7 dosbarth. Cymraeg yw prif gyfrwng gwaith a bywyd yr ysgol.

Tros dreigl tair blynedd, mae tua 20% o'r disgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim. Mae hyn ychydig yn uwch na'r ganran genedlaethol, sef 18%. Ychydig iawn o ddisgyblion sydd yn siarad Cymraeg gartref. Mae'r ysgol wedi adnabod tua 30% o'i disgyblion fel rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, sy'n uwch na'r ganran genedlaethol, sef 21%.

Penodwyd y pennaeth i'w swydd ym mis Ebrill 2017 ac arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Hydref 2010.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym

## Crynodeb

Mae llais y disgybl a lles y plentyn yn ffocws clir ac yn nodweddion cryf o fywyd yn Ysgol Calon y Cymoedd. Mae bron pob plentyn yn ymddwyn yn dda ac yn dangos cwrteisi a pharch at ei gilydd ac oedolion. Mae'r ysgol yn elwa o arweinyddiaeth gref sy'n rhoi hawliau'r plentyn yn ganolog i bopeth, a rhennir y weledigaeth hon yn llwyddiannus ar draws gymuned yr ysgol gyfan. Mae gan arweinwyr ddisgwyliadau uchel a ffocws clir ar godi safonau yn barhaus.

Mae'r staff yn darparu cwricwlwm ysgogol, cyfoes sy'n gafael yn nychymyg y dysgwyr yn llwyddiannus. Mae bron pob disgybl yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu gyda'r rhan fwyaf yn cymhwyso'u medrau llythrennedd, rhifedd a thechnoleg, gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn effeithiol wrth weithio ar draws y cwricwlwm.

| **Maes arolygu** | **Barn** |
|---|---|
| **Safonau** | **Da** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Da** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Da** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Argymhellion

A1 Codi safonau darllen yn y Gymraeg

A2 Sicrhau bod prosesau gwella yn canolbwyntio'n fanwl ar werthuso a gwella safonau a chynnydd disgyblion

A3 Darparu mwy o gyfleoedd i ddisgyblion ymarfer eu medrau ysgrifennu yn annibynnol yn y cyfnod sylfaen

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Da**

Ar fynediad i'r ysgol, mae gan lawer o ddisgyblion medrau is na'r disgwyl ar gyfer eu hoed. Mae bron pob un yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu o'u mannau cychwyn, gan gynnwys disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu eu medrau meddwl yn effeithiol.

Ar draws y cyfnod sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn caffael ystod gynyddol o eirfa'n llwyddiannus mewn sefyllfaoedd amrywiol. O fan cychwyn isel, maent yn datblygu'n siaradwyr hyderus erbyn Blwyddyn 2 sy'n hoff o rannu eu profiadau a'u safbwyntiau. Mae bron pob disgybl yn datblygu eu medrau gwrando yn effeithiol. O oed cynnar, mae'r rhan fwyaf yn gwrando'n astud ar oedolion a'i gilydd yn barchus ac yn trafod eu gwaith yn frwdfrydig. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn siarad yn gywir yn y Gymraeg a Saesneg ac yn cyfrannu'n ddefnyddiol i sgyrsiau gyda chyfoedion a mynegi eu barn yn glir. Maent yn gwrando'n astud ar safbwyntiau ei gilydd cyn ymateb yn synhwyrol ac yn effeithiol i drafodaethau. Erbyn Blwyddyn 6, mae medrau trawsieithu llawer o'r disgyblion yn datblygu'n gynyddol lwyddiannus, er enghraifft wrth chwilio am ffeithiau ar y we yn Saesneg am Syr Francis Drake er mwyn ysgrifennu araith yn Gymraeg.

Mae medrau darllen rhan fwyaf y disgyblion yn y cyfnod sylfaen yn datblygu'n briodol. Mae'r disgyblion ifancaf yn dechrau adnabod llythrennau a seiniau yn llwyddiannus ac mae'r mwyafrif yn dechrau adeiladu geiriau'n hyderus. Fodd bynnag, erbyn diwedd y cyfnod, nid yw gallu mwyafrif o ddisgyblion i drafod cynnwys eu llyfrau wedi datblygu'n ddigon cadarn. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf yn darllen Saesneg yn ddeallus mewn cyd-destunau amrywiol. Mae llawer yn amrywio goslef eu llais ac yn defnyddio atalnodi yn gywir, er enghraifft er mwyn cyfleu deialog yn effeithiol. Mae llawer o'r disgyblion yn defnyddio strategaethau gwahanol yn llwyddiannus i ddarllen yn gywir yn y Gymraeg, ond mae diffyg rhugldër a mynegiant yn amharu ar safon eu darllen.

Ar draws y cyfnod sylfaen, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau ysgrifennu'n briodol mewn ystod o ffurfiau gwahanol. Erbyn diwedd Blwyddyn 2, maent yn ysgrifennu dilyniant o frawddegau syml yn briodol, gan atalnodi eu gwaith yn berthnasol. Mae lleiafrif yn ysgrifennu at wahanol bwrpasau, ac mewn cyfres o frawddegau cyffrous gyda chywirdeb cynyddol, er enghraifft wrth ysgrifennu ymson Owain Gyndwr. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o'r disgyblion yn ysgrifennu'n llwyddiannus at wahanol bwrpasau a chynulleidfaoedd yn y ddwy iaith, er enghraifft wrth greu llythyr gan filwr yn y ffosydd yn Gymraeg neu ddyddiadur yn Saesneg o safbwynt gwas cegin yn ystod Oes y Tuduriaid. Erbyn diwedd Blwyddyn 6, mae'r mwyafrif yn atalnodi a pharagraffu darnau ysgrifenedig yn llwyddiannus.

Mae medrau mathemategol rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu'n dda. Maent yn meddu ar y gallu i gyfrifo a datrys problemau yn eu pen yn hyderus yn ystod sesiynau sionc dyddiol. Yn y cyfnod sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn cymhwyso'u medrau'n llwyddiannus mewn amrywiaeth o feysydd dysgu. Er enghraifft, maent yn casglu data am wahanol ffyrdd o deithio i'r ysgol, gan ddefnyddio'r wybodaeth i greu graff bloc yn effeithiol. Mae rhan fwyaf o ddisgyblion

cyfnod allweddol 2 yn defnyddio'u medrau rhifedd yn dda mewn gwahanol gyd-destunau. Er enghraifft, maent yn edrych ar nifer y calorïau mewn bwydydd gwahanol er mwyn creu bwydlenni amrywiol yn nodi'r calorïau ym mhob pryd.

Ar draws yr ysgol, mae bron pob disgybl yn datblygu medrau cryf mewn TGCh. Mae plant y dosbarth meithrin yn rheoli tegan rhaglenadwy i symud i gyfeiriad penodol yn llwyddiannus gyda chymorth oedolion. Erbyn diwedd y cyfnod sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn mewngofnodi i Hwb ac yn dechrau defnyddio'r meddalwedd priodol i gyfleu eu gwaith mewn ffyrdd deiniadol a phwrpasol. Er enghraifft, maent yn mewnbynnu gwybodaeth i daenlen er mwyn creu graff bar o hoff ffrwythau'r dosbarth ar gyfer gwneud smwddi iachus. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf yn defnyddio TGCh yn effeithiol i gyflwyno eu gwaith mewn ffyrdd diddorol. Maent yn ymchwilio ar y we i brisiau ffrwythau mewn archfarchnadoedd gwahanol, gan fewngofnodi'r wybodaeth i daenlen er mwyn cymharu prisiau a phenderfynu ble i brynu'r cynhwysion rhataf.

**Lles ac agweddau at ddysgu: Da**

Mae ymddygiad bron pob disgybl wrth symud o amgylch yr ysgol, yn ystod gwersi ac yn ystod amseroedd hamdden, yn dda. Maent yn trin oedolion ac ymwelwyr gyda pharch, yn agor drysau iddynt yn gwrtais ac yn dangos balchder wrth siarad am eu hysgol. Mae bron pob disgybl yn ofalgar o'i gilydd ac mae'r 'Bydis Buarth' yn gofalu am eraill yn ystod amseroedd egwyl a chinio yn gydwybodol. Mae bron pob disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn gwybod at bwy i droi os ydyn nhw'n gofidio am rywbeth. Maent yn hyderus fod yr ysgol yn ymateb i unrhyw bryder sydd ganddynt yn amserol. Mae bron pob disgybl yn credu bod yr ysgol yn trin unrhyw achosion o anghydfod yn dda oherwydd strategaethau llwyddiannus sy'n cael eu gweithredu gan yr ysgol, fel y blwch teimladau, y pot positif ac amser trafod. Mae eu dealltwriaeth o bwysigrwydd cadw'n ddiogel ar y we yn gadarn. Maent yn ymwybodol o bobl anghenus o fewn yr ysgol, yn lleol a thramor ac maent yn cefnogi elusennau gwahanol yn rheolaidd. O ganlyniad, maent yn datblygu'n ddisgyblion meddylgar a chydwybodol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos agwedd bositif at eu gwaith ac maent yn canolbwyntio a dyfalbarhau am gyfnodau estynedig gan gwblhau eu gwaith yn llwyddiannus. Mae'r rhan fwyaf yn ymdrechu'n ddiwyd mewn gwersi ac yn cydweithio'n effeithiol â'u cyfoedion mewn grwpiau ac mewn parau gan ddangos parch at farnau pobl eraill. Nid ydynt yn ofni gwneud camgymeriad ac maent yn barod i gynnig gwahanol ffyrdd i ddatrys problem, er enghraifft o fewn sesiynau rhifedd sionc.

Mae llais y disgybl yn greiddiol i fywyd yr ysgol. Mae gwaith aelodau'r gwahanol bwyllgorau disgyblion yn dylanwadu'n effeithiol ar fywyd yr ysgol. Mae aelodau'r pwyllgor hawliau plant yn arwain ar y dasg o esbonio'r hawliau yn llwyddiannus. Maent yn sicrhau bod ganddynt hawl i gael eu trin yn gyfartal, hawl i dderbyn addysg a bod hawliau a chyfrifoldebau ganddynt fel unigolion. Mae'r cyngor ysgol hefyd yn cael dylanwad gwerthfawr ar sicrhau tegwch i bob disgybl a chyfoethogi eu profiadau adeg amser chwarae drwy drefnu amserlen bwrpasol.

Mae gan ran fwyaf y disgyblion ddealltwriaeth gadarn o bwysigrwydd bwyta'n iach.

Maent yn sôn am ba fwydydd sy'n rhai iach, a thrwy lais y disgybl mae'r ysgol wedi sefydlu siop ffrwythau sy'n cael ei harwain gan aelodau'r pwyllgor eco. Maent yn deall pwysigrwydd ymarfer corff ac yn ymfalchïo yn yr amrywiaeth o glybiau allgyrsiol sydd ar gael fel hoci, criced a rhedeg. Mae hyn yn hybu eu ffitrwydd corfforol yn llwyddiannus. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn ymfalchïo yn y cyfleoedd sydd ganddynt i chwarae rhan yn eu cymuned, er enghraifft drwy ganu mewn cartref hen bobl lleol a gweithgareddau cymdeithasol gyda ysgol gyfagos.

## Addysgu a phrofiadau dysgu: Da

Mae gan ran fwyaf yr athrawon ddisgwyliadau uchel o safonau ac ymddygiad disgyblion ac maent yn creu awyrgylch tawel a pharchus ar gyfer dysgu. Maent yn teilwra gweithgareddau yn llwyddiannus ar gyfer disgyblion o bob gallu. Mae llawer o athrawon yn manteisio ar gyfleoedd rheolaidd i herio disgyblion wrth holi'n fedrus a'u hannog i feddwl ac i drafod yn effeithiol gyda'u cyfoedion. Un o gryfderau'r addysgu yw'r ffordd y mae athrawon a'r cynorthwywyr yn cydweithio'n agos â'i gilydd er mwyn codi safonau. Maent yn cefnogi ei gilydd wrth gyflwyno gweithgareddau i'r disgyblion, yn annog y disgyblion i wrando'n ofalus ac atgyfnerthu eu geirfa a therminoleg newydd yn y Gymraeg. Maent yn defnyddio strategaethau hybu ymddygiad da yn gyson ar draws yr ysgol ac, o ganlyniad, mae bron pob disgybl yn ymddwyn yn dda.

Mae rhan fwyaf o'r staff yn cynnig adborth llafar gwerthfawr i'r disgyblion yn ystod gweithgareddau er mwyn eu cynnal a'u hymestyn. Maent yn annog ac yn cefnogi'n fedrus. Mae llawer o'r athrawon yn darparu adborth ysgrifenedig syml ond effeithiol. Mae'n rhoi arweiniad clir i ddisgyblion ynglŷn â beth sy'n dda yn eu gwaith a beth sydd angen ei wella. Mae athrawon yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion wella cynnwys eu gwaith wrth ailddrafftio agweddau penodol. O ganlyniad, mae disgyblion o bob oed yn siarad yn wybodus am beth sydd yn dda yn eu gwaith a'r cynnydd y maent wedi ei wneud. Darperir cyfleoedd buddiol i ddisgyblion asesu eu gwaith eu hunain a gwaith eu cyfoedion yn ystod cyfnodau penodol rheolaidd.

Mae'r staff yn deall egwyddorion y cyfnod sylfaen yn dda. Maent yn cyflwyno medrau, gwybodaeth a dealltwriaeth newydd yn effeithiol ac yn darparu cyfleoedd ystyrlon i ddisgyblion ddysgu trwy brofiadau ymarferol. Mae staff y cyfnod sylfaen yn darparu amgylchedd dysgu dan do ac awyr agored sydd wedi'i gynllunio'n dda, gan sicrhau bod gan ddisgyblion gyfleoedd pwrpasol i ddefnyddio'r amgylchedd dysgu deniadol i ymarfer a datblygu eu medrau. Er enghraifft, mae plant y dosbarth meithrin yn ymchwilio i ddeunyddiau gwahanol wrth greu tai i'r tri mochyn bach. Fodd bynnag, mae gorddefnydd o daflenni parod yn cyfyngu ar allu'r disgyblion i ysgrifennu'n rhydd ac yn estynedig ac i weithio'n annibynnol ar adegau.

Mae'r athrawon yn darparu cwricwlwm diddorol a symbylus sy'n ennyn diddordeb bron pob disgybl yn llwyddiannus, gan ddefnyddio eu syniadau nhw wrth gynllunio'r prosiectau tymhorol. . Maent yn darparu ystod eang o brofiadau dysgu byw sy'n datblygu medrau disgyblion a'u hawydd i ddysgu yn effeithiol. Mae athrawon yn cynllunio cyfleoedd synhwyrol a threfnus i ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh disgyblion ar draws y cwricwlwm. Maent yn sicrhau bod disgyblion yn cael cyfleoedd rheolaidd i atgyfnerthu eu medrau mewn ystod eang o bynciau. Er enghraifft, mae disgyblion yn defnyddio offer cyfrifiadurol rhithwir i weld sut oedd bywyd yn y ffosydd yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf. Mae'r profiad hwn yn gymorth iddynt drafod ac ysgrifennu'n feddylgar o safbwynt milwr Prydeinig ganrif yn ôl. Yn

ddiweddar, mae athrawon wedi gosod camau effeithiol er mwyn gwella safonau darllen Cymraeg disgyblion. Fodd bynnag, hyd yma, nid ydynt wedi gwreiddio'n llawn i gynyddu safonau disgyblion.

Gwneir defnydd gwerthfawr o ymwelwyr ac ymweliadau addysgol, fel ymweliadau i Ferthyr Mawr a Phrifysgol Caerdydd er mwyn creu ap meddylgarwch sy'n codi ymwybyddiaeth y disgyblion o sut i ymdopi â'u teimladau emosiynol a meddyliol. Yn ogystal, mae ymweliadau â Llancaiach Fawr, Amgueddfa Abertawe a ffatri dechnolegol leol yn cyfoethogi'r cwricwlwm yn effeithiol ac yn datblygu medrau disgyblion yn llwyddiannus. Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd cyfoethog i ddisgyblion ddysgu am iaith a diwylliant Cymru. Er enghraifft, maent yn cynnal eisteddfod ysgol, yn astudio hanes Owain Glyndŵr ac yn perfformio sioe gerdd yn ddwyieithog i'r gymuned leol mewn partneriaeth â thair ysgol arall. Maent hefyd yn cynnal disgo Santes Dwynwen gan wahodd yr ysgol gyfagos er mwyn hybu'r iaith Gymraeg o fewn y gymuned leol yn llwyddiannus.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned hapus, ofalgar a chynhwysol sy'n rhoi pwyslais da iawn ar les disgyblion. Darperir cefnogaeth o ansawdd uchel i ddisgyblion ag anghenion emosiynol, iechyd a chymdeithasol ac mae hyn yn cynorthwyo disgyblion i ymgysylltu'n effeithiol â'u dysgu. Enghraifft lwyddiannus o'r gefnogaeth yw effaith bositif swyddog lles mewnol yr ysgol. Mae'r swyddog yn galluogi disgyblon i siarad am eu teimladau a gwneud gwaith cysylltiedig sy'n rhoi'r medrau iddynt er mwyn paratoi ar gyfer bywyd tu allan i'r ysgol.

Mae'r ysgol yn llwyddo'n effeithiol i gefnogi ystod o ddisgyblion ag anghenion addysgol ac emosiynol trwy ymyraethau amrywiol. Mae'r rhain yn annog disgyblion i fentro mewn sefyllfa ddiogel heb bwysau a derbyn canmoliaeth uchel sy'n hyrwyddo'u hunanhyder a phositifrwydd.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau effeithiol ar gyfer olrhain a monitro cynnydd a lles disgyblion. Mae'r gweithdrefnau hyn yn galluogi athrawon i adnabod anghenion unigolion a grwpiau o ddisgyblion yn gynnar. Mae'r ystod eang a chynhwysfawr o raglenni a strategaethau ymyrraeth ar gyfer rhifedd, llythrennedd a lles yn galluogi disgyblion a grwpiau o ddisgyblion i dderbyn cefnogaeth bwrpasol ac effeithiol. O ganlyniad, mae bron pob disgybl sy'n derbyn cynhaliaeth yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu a'u datblygiad personol. Mae cynlluniau addysg unigol effeithiol gan ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Maent yn benodol a mesuradwy ac mae disgyblion a'r rhieni yn cyfrannu'n bwrpasol at lunio targedau gwella. Mae'r ysgol wedi cychwyn ar ddatblygu proffiliau effeithiol un dudalen sy'n sicrhau ffocws canolog ar yr unigolyn ac, o ganlyniad, maent yn adnabod rhinweddau ac anghenion disgyblion yn dda. Mae'r ysgol yn cydweithio'n agos ag ysgolion lleol er mwyn rhannu arfer dda ac i sicrhau cysondeb ac ansawdd uchel i'r disgyblion hyn.

Mae'r pwyslais ar ddatblygu gwerthoedd yn amlwg ym mywyd yr ysgol. Enghraifft lwyddiannus yw gwasanaethau'r ysgol sydd â ffocws ar wyth gwerth yr ysgol. Mae gan y disgyblion lais amlwg wrth ddewis y gwerthoedd ac maent yn cymryd perchnogaeth ohonynt gan eu defnyddio'n effeithiol yn ystod eu bywyd ysgol. Mae'r ysgol yn cynnal partneriaethau effeithiol gyda rhieni ac yn sicrhau cydweithio buddiol er lles y disgyblion. Mae'r ysgol yn defnyddio systemau electronig cyfoes yn effeithiol

i gyfathrebu'n gyson ac yn llwyddiannus gyda rhieni gan sicrhau eu mewnbwn rheolaidd i waith eu plant. Mae'r ysgol yn darparu gweithdy ffitrwydd ac iechyd i blant a'u rhieni sydd yn cefnogi teuluoedd yr ysgol i ddatblygu medrau effeithiol, er enghraifft bwyta'n iach, ffitrwydd, medrau cymdeithasol a chwarae.

Mae'r ysgol yn chwarae rhan allweddol i sicrhau bod lles y plentyn yn ganolog a'u bod yn datblygu i fod yn ddinasyddion cyfrifol, hyderus gydag ymwybyddiaeth gadarn o ffordd iach o fyw.

Mae gan yr ysgol bwyslais amlwg ar feithrin parch a chydraddoldeb ymysg y disgyblion. Mae'r ysgol yn cynnal sesiynau meddylgarwch dyddiol sy'n hyrwyddo lles a datblygiad ysbrydol, moesol a chymdeithasol y disgyblion yn llwyddiannus. Mae'r ysgol yn darparu clybiau allgyrsiol effeithiol sy'n cynnig profiadau gwerthfawr i bron bob un disgybl ac, o ganlyniad, mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o bwysigrwydd bwyta'n iach a chadw'n heini. Mae'r trefniadau ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau creadigol disgyblion yn llwyddiannus.

Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddatblygu eu medrau drwy weithgareddau cerddol fel canu yn ystod dathliadau Gŵyl Ddewi, ymweld â chwmnïau theatr a pherfformio sioeau amrywiol. O ganlyniad, maent yn datblygu medrau perfformio a llafaredd da yn y Gymraeg.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da**

Mae arweinyddiaeth effeithiol a chadarn iawn y pennaeth yn gosod cyfeiriad strategol clir i ddatblygiad yr ysgol. Mae ganddi weledigaeth eglur sy'n seiliedig ar sicrhau bod lles disgyblion a staff yn rhan ganolog o waith yr ysgol. Mae'n rhannu'r weledigaeth hon yn effeithiol gyda staff, disgyblion, llywodraethwyr a rhieni yn llwyddiannus. Mae aelodau'r uwch dîm rheoli yn datblygu'u rôl strategol yn effeithiol ac maent yn cefnogi'r pennaeth yn fwriadus. O ganlyniad, mae diwylliant o ddisgwyliadau uchel ac ethos o gydweithio agos yn bodoli ar draws yr ysgol.

Mae diwylliant ac ethos cryf o gefnogi dysgu proffesiynol staff yn yr ysgol. Mae cyfleoedd buddiol i bob aelod o staff wella eu harfer er mwyn codi safonau disgyblion. Mae hyn, er enghraifft, wedi arwain at wella safonau mewn lles a medrau TGCh ar draws yr ysgol. Mae'r athrawon yn cydweithio'n effeithiol ag ysgolion eraill tebyg i gefnogi datblygiad proffesiynol staff. Er enghraifft, maent yn paratoi'n fwriadus ar gyfer gweithredu anghenion y cwricwlwm newydd i Gymru drwy gyd-gynllunio profiadau dysgu gydag athrawon mewn ysgolion cyfagos. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar ddealltwriaeth athrawon a'u gallu i gynllunio ystod eang o brofiadau cyffrous i ddisgyblion. Mae'r trefniadau i reoli perfformiad staff yn gadarn, ac yn cysylltu'n uniongyrchol â blaenoriaethau'r ysgol ac anghenion staff unigol.

Mae'r llywodraethwyr yn adnabod yr ysgol yn llwyddiannus ac yn cyfrannu'n helaeth at brosesau hunanwerthuso trwy graffu ar waith disgyblion a chynnal trafodaethau gydag athrawon a disgyblion. Mae hyn yn eu galluogi i herio'r ysgol ynglŷn â pherfformiad a chynnydd disgyblion yn effeithiol.

Mae arweinwyr yn ymateb yn llwyddiannus i farn disgyblion a’u rieni.  Er enghraifft, yn dilyn adborth oddi wrth rieni, mae’r ysgol wedi newid trefniadau clybiau allgyrsiol, sy’n cael effaith gadarnhaol ar nifer y disgyblion sy’n mynychu’r clybiau.

Mae arweinwyr wedi sefydlu gweithdrefnau hunanwerthuso llwyddiannus, gan gynnwys arsylwadau gwersi, siarad â disgyblion, craffu ar waith a dadansoddi data. Mae’r gweithdrefnau hyn yn eu galluogi i adnabod cryfderau’r ysgol a llawer o’r meysydd ar gyfer gwelliant yn dda.  Mae cyswllt agos yn bodoli rhwng darganfyddiadau’r prosesau hunanarfarnu a chynlluniau gwella.  Mae’r cynllun gwella’r ysgol yn nodi camau gweithredu priodol er mwyn gwella agweddau ar y ddarpariaeth a safonau disgyblion.  Fodd bynnag, nid yw’r gweithredoedd bob amser yn ddigon miniog nac yn canolbwyntio’n ddigonol ar safonau unigolion neu grwpiau o ddisgyblion i alluogi arweinwyr i fesur cynnydd yn effeithiol.

Mae’r arweinwyr yn rheoli adnoddau yn gymesur ac mae’r gyllideb yn cael ei defnyddio yn effeithiol i ymateb i anghenion penodol.  Enghraifft dda o hyn yw’r adnoddau TGCh sydd wedi cael eu darparu yn ddiweddar.  Mae rhain yn cael effaith gadarnhaol ar y cyfleodd i ddisgyblion gymhwyso eu medrau ar draws y cwricwlwm. Mae’r ysgol yn gwneud defnydd bwriadus iawn o’r grant datblygu disgyblion, er enghraifft wrth wella medrau a hybu profiadau disgyblion penodol.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2019: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 09/05/2019